# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(203)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Rôl Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wrth Fynd i'r Afael â'r Agenda Trechu Tlodi (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**

Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Fframwaith Adfywio
Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – Adroddiad ar Broses Asesu Cam 2

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Trechu Tlodi Tanwydd drwy Effeithlonrwydd Ynni (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**

Strategaeth Tlodi Tanwydd
Nyth

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol (45 munud)**

**6 Dadl: Gwella Iechyd Meddwl (60 munud)**
**NDM5521 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilynol o Faterion Diogelwch 2013, wedi canfod bod "plant a phobl ifanc yn parhau i wynebu risg oherwydd eu bod yn cael eu derbyn yn amhriodol i wardiau iechyd meddwl oedolion" ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gweithdrefn gadarnach i fyrddau iechyd adrodd ar leoliadau amhriodol ar wardiau iechyd meddwl oedolion.

Mae 'Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilynol o Faterion Diogelwch (11 Rhagfyr 2013)' ar gael yn:
https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/CAMHS_English_2013.pdf
*[Saesneg yn unig]*

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth yn y cyfnod pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, gan gynnwys system wedi ei symleiddio i

rannu gwybodaeth rhwng darparwyr.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i wella trefniadau pontio ar gyfer y rheiny sy'n symud o’r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i neilltuo gwariant ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac yn galw am drefniadau monitro gwell gan fyrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles gwael a ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol anffafriol a ffactorau croes eraill, ac yn galw am gydweithrediad gwell rhwng y GIG ac awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi nodi problemau difrifol o ganlyniad i brinder gwelyau mewn wardiau gofal aciwt, ac yn nodi y gallai’r prinder hwn arwain at ddefnyddio celloedd yr heddlu yn amhriodol.

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, ac yn gresynu at y problemau sy'n parhau i godi wrth geisio cael mynediad at y gwasanaethau hyn.

**Gwelliant 8 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi dirywio'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Gwelliant 9 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta.

Mae'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta, ar gael yn:
http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/090703eatingdisorderframeworken.pdf
*[Saesneg yn unig]*

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Mehefin 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Mehefin 2014 i'w hateb ar 10 Mehefin 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Elin Jones (Ceredigion)**: Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gynnal y Gymraeg fel iaith fyw yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1712(FM)**W**

2. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau llyfrgell ar draws Cymru? OAQ(4)1700(FM)

3. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â Bil Cymru? OAQ(4)1705(FM)

4. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yng Nghymru? OAQ(4)1716(FM)

5. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o ddigwyddiadau chwaraeon mawr? OAQ(4)1704(FM)

6. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cludiant yng Nghymru dros y deuddeg mis nesaf? OAQ(4)1703(FM)

**7. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i sector y diwydiannau creadigol? OAQ(4)1708(FM)

**8. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi ynni yng Nghymru? OAQ(4)1713(FM)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gwasanaethau gofal sylfaenol? OAQ(4)1711(FM)**W**

**10. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ganlyniadau diweddar y British Social Attitudes Survey yng nghyswllt rhagfarn hiliol hunan-gofnodedig yng Nghymru? OAQ(4)1701(FM)

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella'r modd y mae pynciau STEM yn cael eu haddysgu? OAQ(4)1702(FM)

**12. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y gwelyau gofal critigol sydd ar gael yn ysbytai Dwyrain De Cymru? OAQ(4)1709(FM)

**13. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a fu yng nghyswllt trydaneiddio'r brif reilffordd rhwng Paddington ac Abertawe? OAQ(4)1706(FM)

**14. Alun Ffred Jones (Arfon):** Pa brosiectau cyfalaf sydd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill i ddatblygu'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1714(FM)**W**

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i godi lefelau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(4)1707(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Mae agendau'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn y cyfarfod, ac mae modd eu gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 17 Mehefin 2014 a dydd Mercher 18 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 24 Mehefin 2014 a dydd Mercher 25 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2014 a dydd Mercher 2 Gorffennaf 2014**
**************************************************************************

**Dydd Mawrth 17 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Twristiaeth (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Creu'r amodau ar gyfer twf gwyrdd (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Tai (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 18 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

- Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2014 (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dadreoleiddio mewn perthynas â gwelliannau i'r Bil ynghylch Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai (Cymru) (180 munud)
  Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Dydd Mercher 25 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Cyflwyno'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Dŵr (60 munud)
- Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014 (15 munud)

  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
- Gorchymyn Cynllunio (Newidiadau Amherthnasol a Chywiro Gwallau) (Cymru 2014) (15 munud)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Newidiadau Ansylweddol) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (60 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (60 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Ariannu Addysg Uwch (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)